Welsh Recitation: Years 3 and 4.

# Y tymhorau.

## Y gwanwyn.

Dail newydd ar goed,
Petalau blodau'n agor,
Byd yn blaguro.

## Yr haf

Haul popeth yn gwenu
dros enfys o liwiau'r haf
a mwmian gwenyn.

## Yr hydref

Yn niwl y bore,
Dail coch a brown yn disgyn –
Coeden yn cysgu.

## Y gaeaf

Blanced o eira,
Dim si, dim symud, dim swn,
Dim lliwiau llawen.

Welsh Recitation: Years 5 and 6.

## Fy nheulu i a fi.

Mae Mam yn hoffi pasta gwyn;
Mae Dad yn hoffi reis;
Mae ‘mrawd yn hoffi pizza mawr
A lot o toppings neis.

Dw i yn hoffi platiad mawr
O datws, ham a bins; (beans)
Dw i ddim yn hoffi cyri poeth,
Tomatos na sardins.

Mae Taid yn hoffi dawnsio’n wyllt
Mewn disgo yn y dre;
Mae Nain yn hoffi sglefrio ia –
Mae’n gleidio dros y lle.

Dw i yn hoffi reidio beic
A chwarae fy trombon,
Mae’r swn yn cario dros y wlad-
O Benfro draw i Fon.